Sefydliadau treftadaeth i rannu ystyion arloesol i



Bydd DigVentures yn ennyn diddordeb 4,000 o gyfranogwyr i helpu mapio safleoedd archeolegol ac arferion ecolegol yn nhrydydd cam ei brosiect Cronfa Arloesedd Treftadaeth.

Mae trydydd cam ein Cronfa Arloesedd Treftadaeth yn cefnogi prosiectau ledled y DU i gyflwyno ffyrdd newydd a chreadigol o weithio.

Helpodd dau gam cyntaf y fenter i sefydliadau archwilio a phrofi syniadau ar gyfer mynd i'r afael â heriau cyffredin a wynebir gan weithluoedd treftadaeth.

Rydym bellach wedi dyfarnu £2.9miliwn i 13 o'r sefydliadau hyn i symud eu syniadau ymlaen i'r trydydd cam, sef y cam terfynol.

Bydd y sefydliadau llwyddiannus yn gweithio gyda'i gilydd mewn carfan, gan barhau i ddysgu am y broses arloesi, a mynd â'r gwersi yn ôl i'w sefydliadau i'w hymwreiddio wrth gyflwyno eu hatebion i heriau gweithlu.

O wella lles i fynd i'r afael â phrinder sgiliau, bydd y prosiectau'n helpu i dyfu sector treftadaeth sy'n fwy cynaliadwy, cynhwysol ac addas ar gyfer y dyfodol.

Meddai Eilish McGuinness, Prif Weithredwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: "Rwyf wrth fy modd â gweld yr 13 prosiect hyn yn symud ymlaen i'r cam terfynol. Mae'r dull carfan eisoes wedi arwain at ddatblygiadau trawiadol o ran

sgiliau, hyder a galluoedd - rwy'n gyffrous i weld yr hyn y byddant yn ei ddatblygu nesaf.

"Mae buddsoddi mewn arloesi'n cefnogi cynaladwyedd sefydliadol, un o'n pedair egwyddor fuddsoddi, a bydd yn sicrhau gwerthfawrogi a gofalu am dreftadaeth a'i chynnal ar gyfer pawb, nawr ac yn y dyfodol

Gweithio mewn partneriaeth

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Sefydliad Young i gyflwyno'r sesiynau carfan – cymysgedd o ddosbarthiadau meistr a grwpiau dysgu gan gymheiriaid.

Meddai Helen Goulden OBE, Prif Weithredwr Sefydliad Young: "Trwy'r gwaith hwn, mae wedi bod yn wir bleser i weld yr ymgyrch tuag at arloesi uchelgeisiol ar draws y sector treftadaeth, gyda sefydliadau ar hyd a lled y DU yn gweithio mewn ffyrdd cyffrous i ysgogi newid pwrpasol, parhaol a chynaliadwy i fynd i'r afael â heriau gwaith

"Llong a phrofi



Mae Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir yn ymestyn cyfleoedd gyrfa i fyfyrwyr gyda 42 o leoliadau newydd â thâl.

Datblygu syniadau ymhellach

Mae'r sefydliadau sy'n symud ymlaen at y cam terfynol yn cynnwys:

Arts Marketing Association a fydd yn datblygu llwyfan deallusrwydd artiffisial newydd sy'n cynnig dysgu wedi'i deilwra am y defnydd o AI yn y sector treftadaeth.

Butterfly Conservation sy'n cefnogi ei Banel Ieuenctid i greu cynnwys, cyfleoedd a hyfforddiant newydd i ysbrydoli pobl ifanc i gymryd rhan mewn cadwraeth.

Amgueddfa Genedlaethol Cymru a fydd yn mynd i'r afael ag eco-bryder ac yn gwella lles yn y gweithlu trwy gyfranogiad mewn gweithgareddau sy'n lleihau effaith newid yn yr hinsawdd.

Sefydliad Ffilm Prydain a fydd yn cefnogi staff presennol a rhai yn y dyfodol drwy ehangu ei fodel hyfforddeiaeth a chynyddu cyfleoedd datblygu canol gyrfa.

Happy Days Enniskillen International Beckett Festival a fydd yn adeiladu sgiliau a balchder yn eu lle trwy ddod â phobl o bob oed ynghyd i rannu eu syniadau.

Gweler y rhestr lawn o grantïon Cam Tyfu'r Gronfa Arloesedd Treftadaeth.

Ymateb i anghenion y sector treftadaeth

Fe wnaethom ddatblygu'r Gronfa Arloesedd Treftadaeth fel ymateb i'n Harolwg Calon Treftadaeth y DU 2022 a ganfu fod 54% o ymatebwyr eisiau mwy o gefnogaeth i'w helpu i arloesi a phrofi dulliau newydd. Mae arloesi hefyd yn elfen bwysig o gyflawni ein hegwyddorion buddsoddi gan gynnwys achub treftadaeth a chynaladwyedd sefydliadol.

Archwiliwch ein strategaeth Treftadaeth 2033 a dweud eich dweud ar y cyfleoedd a'r heriau i'r sector treftadaeth drwy ymuno â'n panel ymchwil Calon Treftadaeth y DU.



efyd mewn ...

Mae Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir yn archwilio heriau o ran recriwtio, cadw ac amrywiaeth gweithlu'r sector cadwraeth.



orwyr Cronfa Arloesedd Treftadaeth

A dig on Holy Island



environmental challenges

The Flight of the Little Golden Swallow, inspired by Oscar Wilde’s The Happy Prince, is an installation of 150 gold leaf swallows on retail stores, community buildings and schools in and around Enniskillen centre. The swallows were created by Fermanagh artists Simon Carman and Helen Sharp. Credit: Brian Morrison.

Inspiring pride in place through a volunteer-supported festival